PERTHYN

Mehefin 2024 Rhifyn 327

Clychau'r Gog

Dyfod pan ddêl y gwcw,
Myned pan êl y maent,
Y gwyllt atgofus bersawr,
Yr hen lesmeiriol baent;

R. Williams Parry

"Nid oedd gan hyd yn oed Solomon yn ei holl ogoniant wisg i'w chymharu ag un o'r rhain" (Mathew 6: adnod 29)

Gair gan y Gweinidog

Fe ges benwythnos anarferol o brysur yn ddiweddar. Nid yn unig y penwythnos ond hefyd yr wythnos ganlynol gan dreulio nifer i awr mewn pwyllgorau ynghyd ag ymweliadau ysbytai ac aelwydydd. ‘Dwi am ddechrau'r ychydig eiriau yma gyda’r realiti hwnnw, nid er mwyn tanlinellu natur y Weinidogaeth Gristnogol na gydag ychydig o ‘edrychwch pa mor brysur ydw i’. Mae yna ormod o hynny yn digwydd ym myd y clerigwyr, ac yn arbennig gyda dyfodiad y cyfryngau cymdeithasol, ond yn hytrach i danlinellu pwysigrwydd presenoldeb a chynrychiolaeth. Mae bodolaeth a dylanwad eglwysi’n crebachu ac o ganlyniad, pobl ffydd yn darganfod eu hunain ar ymylon cymdeithas. Y mae perygl deublyg i sefyllfa o’r fath; ar un llaw, colli hyder yn yr hyn ydym yn ei gredu ac ar y llaw arall bod cymdeithas yn diystyru ein presenoldeb. Ar un adeg roedd capel a bywyd capel yn ganolog i fywydau canran sylweddol o gymdeithas, bellach mae pethau wedi newid. Mae bywyd yn brysur a thechnoleg yn rhan annatod o’n byw dyddiol. Deunydd ffilmiau sci-fi oedd gweld wynebau trwy alwad ffôn ar un adeg ond bellach mae Facetime a Zoom yn rhan naturiol o’n bywyd gwaith a theuluol. Yng nghanol hyn i gyd mae fel petai cymdeithas yn dweud nad oes lle bellach i grefydd gyfundrefnol. Mater personol yw ffydd ac felly mae’r cysyniad o fod ‘gyda’n gilydd’ yn gwanio ac ar ben hyn i gyd, mae amser yn beth prin yn meddwl llawer un! Ond mae’r Eglwys yn dal yno, yn addoli ac yn tystio i gariad cyflawn Duw ac yn ceisio darganfod ffyrdd newydd ac adeiladol o fod yn deulu. A ninnau newydd ddathlu’r Pentecost,

atgoffwyd ni o waith yr Ysbryd Glân trwy'r oesoedd. Mae'n calonogi, arwain, goleuo wrth i ni ddathlu bywyd yr Eglwys. Ar yr un pryd, mae yna alwad mewn cymdeithas i ddarganfod ein llais a'n pwrpas o'r newydd.

Ond fe sylweddolais rywbeth arall yng nghanol prysurdeb naturiol y Weinidogaeth. Gwir, efallai bod yr eglwys fel sefydliad yn prysur golli gafael ar fywydau ond eto mae'n bresennol trwy fywyd a chyfraniad ei phobl. Gwir, ym mhob gweithgaredd y bum yn rhan ohono, roedd yr Eglwys yn cael ei chynrychioli gan glerigwyr, ond hefyd ei phobl, unigolion yn defnyddio eu doniau a'u gallu gyda'r ddealltwriaeth o wasanaeth. Rhai blynyddoedd yn ôl, fe gyhoeddwyd adroddiad gan y Senedd ar waith cymdeithasol, yn tanlinellu cyfraniad aruthrol aelodau cymunedau ffydd, ac mae hynny yn rhywbeth mor galonogol. Fe soniodd yr Iesu am yr hedyn mwstard a'r lefain yn y blawd, bychan bach, yn dawel, anarwyddocaol weithiau, ac eto eu dylanwad pellgyrhaeddol. Y mae pobl yr Eglwys ym mhob man yn creu perthnasau, yn arwain, yn gwasanaethu, yn rhoi esiampl a gyda'r ddealltwriaeth yna, profwn obaith am y dyfodol.

'Dwi'n cofio darllen stori unwaith, am wraig yn ymddeol o'i gwaith mewn swyddfa. A hithau'n ddiwrnod olaf, dyma gydweithiwr yn ei hysbysu ei bod wedi dod i ffydd. Ymatebodd y wraig trwy ddweud na fu iddi 'roed rhannu ei ffydd yn agored. "O" meddai'r cydweithiwr "doedd dim rhaid i chi ddweud dim, fe sylwais ar y ffordd yr oeddech yn byw!"

Boed i ni'r gwyleidd-dra sy'n achosi i ni dystio'n dawel i waith achubol Duw yng Nghrist.

Mwynhewch fis Mehefin!

Eifion.

Cadeirydd newydd i elusen leol

Llongyfarchiadau i Gwerfyl Pierce Jones sydd wedi ei hethol fel cadeirydd newydd yr elusen leol, HAHAV. Mae'n olynu Dr Alan Axford, sydd yn awr yn llywydd anrhydeddus ar yr elusen.

Elusen hosbis yn y cartref sydd yn gweithio ar draws Ceredigion yw HAHAV. Caiff ei harwain yn bennaf gan wirfoddolwyr ac ers 2015 mae'n cynnig help ymarferol, gofal cymdeithasol a chwmnïaeth i bobl Ceredigion sydd â salwch cronig cyfyngol.

Mae Gwerfyl yn cymryd y gadeiryddiaeth ar adeg dyngedfennol yn hanes yr elusen wrth iddynt lansio ymgyrch ariannol sylweddol er mwyn gwella a datblygu eu gwasanaethau i'r dyfodol. Gyda chanolfan newydd ar gyrion Aberystwyth a'r galw am ei gwasanaethau yn cynyddu ar draws y sir, y nod yw codi £200,000 yn y 18 mis nesaf.

Mae Gwerfyl ei hun yn arwain trwy esiampl trwy anelu at gerdded 100 milltir mewn mis a gofyn am gefnogaeth nawdd ar hyd y daith.

Dywedodd Gwerfyl,
"Mae'r ffordd y mae HAHAV wedi datblygu ers ei sefydlu bron i ddegawd yn ôl yn dyst i ymroddiad gwirfoddolwyr di-ri, sydd wedi darparu gwasanaeth y mae mawr ei angen i bobl ledled Ceredigion.

Rydym ni nawr yn wynebu sefyllfa lle mae angen i ni fuddsoddi yn ein seilwaith er mwyn i ni allu parhau i ddarparu gwasanaethau hosbis yn y cartref y mae mawr eu hangen. Bydd yr holl arian a godir yn mynd tuag at ddatblygu Plas Antaron fel Canolfan Byw yn Dda ac ehangu ein gwasanaethau gwirfoddol ar draws Ceredigion."

Pob dymuniad da Gwerfyl ac os hoffech gefnogi mae dolen ar ei sianeli cymdeithasol neu ewch i wefan HAHAV – www.hahav.org.uk

Deian Creunant

Nodyn o werthfawrogiad gan rywun oedd angen pecyn bwyd o'r banc bwyd yn ystod mis Mai


To all the people
at the Foodbank:-

Thank you

My life is
a little better
a little brighter
a little lighter

All because of you

And when I think of
what you do

I smile.

Thank you

Newyddion

Cydymdeimlad
Cydymdeimlwn â Lona Jones ar farwolaeth ei brawd, sef Mr Ianto Evans, Gors Goch.
Cydymdeimlwn hefyd â Meirion Morgan a'r teulu ar farwolaeth nai i Meirion, sef Mr David Morgan, perchennog Siop Albatross, Heol y Wig.

Llongyfarchiadau
…i Karen a Matthew Turner ar enedigaeth eu merch, Anwen Diane yng Nghaerwrangon – wyres i Huw a Shirley Jones a gor-wyres i Gwynfor a Shelagh Jones.

Eisteddfodau
Bu nifer o'r plant a'r ieuenctid yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd ym Meifod ac mewn Eisteddfodau eraill yn ystod yr wythnosau diwethaf – yn unigol ac mewn grwpiau. Llongyfarchiadau calonnog i bob un ohonynt.

Ebeneser

Cofion a dymuniadau gorau i'n haelodau a'n cyfeillion yn Ebeneser. Dymunwn yn dda i Eileen Jones sydd wedi dychwelyd adref wedi cyfnod yn yr ysbyty.

.

Gwasanaethau
Cynhaliwyd Gwasanaeth Cymun o dan arweiniad ein Gweinidog, Y Parchg Eifion Roberts ar ddydd Sul 5 Mai. Edrychwn ymlaen at y gwasanaeth nesaf a Chymun ar brynhawn Sul, 2 Mehefin am 2.15, a'r gwasanaeth canlynol ar ddydd Sul, 16 Mehefin.

Mae yn braf croesawu cyfeillion sydd yn ymuno yn y gwasanaethau. Mae croeso cynnes bob amser yn Ebeneser.

Cinio Bara a Chaws dan nawdd Cymorth Cristnogol

Bydd y cinio Bara a Chaws nesaf yn digwydd yn mis Medi. Ceir manylion o ddyddiad a lleoliad yn agosach i'r amser.

Diolch
Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd i Gymorth Cristnogol drwy lanw amlenni a chefnogi'r ieuenctid a'u rhieni yn y brecwast a'r te/coffi ar ôl y gwasanaeth ar 19 Mai. Codwyd cyfanswm o **£1,941.00**.

Testamentau a Beiblau

A hoffech dderbyn un neu ddau gopi o'r Testament Newydd a'r Salmau Cymraeg neu Feibl Saesneg? Mae gan y gymdeithas *Newyddion Da i Bawb* (*Y Gideoniaid* gynt) nifer o rain na allant eu rhannu'n swyddogol erbyn hyn oherwydd newid yn yr enw a bathodyn. Cysylltwch â Hywel os oes diddordeb gennych i dderbyn copïau.



Her 70K Cymorth Cristnogol

Fel y gwyddoch, mae mis Mai bob blwyddyn yn cynnwys Wythnos Cymorth Cristnogol ac yn gyfle o'r newydd i godi ymwybyddiaeth o'u gwaith. Eleni roedden nhw wedi gosod her i ni gyd deithio 70k mewn rhyw ffordd neu'i gilydd er mwyn codi arian at yr elusen werthfawr hon. Ac fel arfer, roedd ieuenctid y Clwb Sul yn awyddus i wneud eu rhan.

Penderfynwyd y byddem i gyd yn cwblhau 70 cilomedr yn ystod y mis – drwy gerdded, seiclo, rhedeg, clocsio neu nofio. Hefyd, er mwyn codi arian, trefnwyd brecwast arbennig fore Sul 19 Mai, gyda digon o croissants a phancws ffres. Ac yn ystod yr un bore, aed i lawr i'r traeth i gasglu digonedd o gerrig er mwyn llunio 70 anferth y tu allan i'r capel i'n hatgoffa eto o ymgyrch Cymorth Cristnogol.

Os nad ydych eto wedi cael cyfle i gyfrannu at Cymorth Cristnogol, croeso i chi gyfrannu at yr her a gwblhawyd gan yr ieuenctid.

Pum munud i gofio pregeth

Ar 12 Mai, Y Parchg Dafydd Andrew Jones oedd yn arwain y gwasanaeth yng Nghapel y Morfa. Wythnos Cymorth Cristnogol oedd y testun a rhoddodd sylw i gyfarchion ac anogaethau Paul i'r eglwys yn Thesalonica (1 Thesaloniaid 5: 16-18):

"Llawenhewch bob amser. Gweddïwch yn ddi-baid. Ym mhob dim rhowch ddiolch."

Yn gyntaf mae llawenydd yn bwysig. Esboniodd y dylem ymfalchïo ein bod yn perthyn i'r holl ddynoliaeth, nid i'n cyd-gristnogion yn unig. Rydym yn rhannu bywyd a thrwy hynny yn perthyn i Dduw. Mae hyn yn sylfaen bwysig i waith Cymorth Cristnogol wrth leddfu poen eraill yn ein byd.

Yn ail, soniodd fod gweddïo yn holl bwysig i ni fel Cristnogion. Wrth weddïo cysylltwn yn uniongyrchol â Duw. Wrth weddïo yn barhaus bydd ein cariad at y ddynoliaeth yn tyfu, ac fe welwn ein cyd-ddyn fel brawd a chwaer yng Nghrist. Soniodd nad oedd y cenhedloedd yn gweld hyn, a bod y brwydro erchyll yn Gasa, Wcráin a llefydd eraill yn y byd yn ganlyniad.

Yn drydydd, nododd bwysigrwydd rhoi diolch. Dylem ddiolch i Aline o Bwrwndi ei bod yn dangos i ni sut all anobaith droi'n obaith. Mae Aline yn diolch i Dduw ac i Gymorth Cristnogol am ei helpu hi. Dylem ni ddiolch i Dduw am bob rhodd y cawn oddi wrtho Ef.

Gweddi ar gyfer Diwrnod Ffoaduriaid ar 20 Mehefin 2024

O Dad, rwyt ti'n gofalu am dy holl blant.

Gwyddom fod gweld rhai o'th blant yn dioddef ac yn marw o ddiffyg cysgod a bwyd, tra bo eraill â mwy na digon, yn peri gofid i ti.

Gweddïwn ar ran y digartref, yn enwedig y rhai a orfodwyd i ddianc o'u mamwlad - pob un ohonynt yn ysglyfaeth i ryfel, clefyd, trychineb naturiol neu anobaith.

Arglwydd, yn wyneb yr holl angen, teimlwn mor ddiymadferth.

Ni ddônt i'r drws: gwelwn hwynt ar y newyddion neu mewn rhaglen ddogfen ar y teledu; gwelwn hwynt yn wythnosol, ac yr ydym wedi'n caledu.

Meddalha ein calonnau, Arglwydd, fel y gweithiom tuag at fyd heb newyn, heb hunanelw, anwybodaeth na thrais.

Deisyfwn ar i'th gariad amgylchynu pob ffoadur heddiw.

Trwy gonsyrn dy bobl a gwaith asiantaethau dyngarol a llywodraethau, deisyfwn ar i'w problemau gael eu goresgyn ac i ffordd newydd o fyw agor allan iddynt.

Gweddïau i'r Eglwys a'r Gymuned, addas. Trefor Lewis allan o *Amser i Dduw*, Gol. Elfed ap Nefydd Roberts

Clwb Sul Capel y Morfa

Yn ystod mis Mai buom yn cynnal amryw o weithgareddau yn gysylltiedig ag Wythnos Cymorth Cristnogol. Y man cychwyn i ni oedd cyflwyno hanes y Samariad Trugarog. Cawsom hwyl gydag actio'r stori a arweiniodd at eiriau'r Iesu *"Câr dy gymydog fel ti dy hun".* Buom yn creu bynting hir a oedd yn cynnwys llythrennau CYMORTH CRISTNOGOL ac arnynt luniau o'r daflen yn adrodd hanes bywyd Aline ym Murundi.

Bu'r ieuenctid yn trafod sut allent hwy gefnogi Cymorth Cristnogol a phenderfynu cefnogi ymdrech 7 cilomedr ym Mai (7k for May) - trwy gerdded, beicio, rhedeg neu unrhyw ddull arall y dymunent. Hefyd roeddent yn awyddus i baratoi brecwast o grempog a croissant cyn y Gwasanaeth ar thema Cymorth Cristnogol ar Sul y Pentecost.

Mae'r lluniau yn dangos amrywiaeth o weithgareddau a'r hwyl a'r bwrlwm a gafwyd ar Sul y Pentecost. Roedd y rhain yn cynnwys *parasiwt, y balwnau a'r melinau gwynt* a grëwyd gan y plant yn dilyn y ffilm a welwyd yn y capel yn adrodd y stori. Roedd Sul y Pentecost yn arbennig iawn i ni hefyd trwy ymdrechion Cymorth Cristnogol: Brecwast cyn y gwasanaeth, coffi ar ôl y gwasanaeth, a'r cylch o gerrig 7k a grëwyd gan yr ieuenctid y tu allan.

Diolch yn fawr iawn i'r ieuenctid, y plant a'r rhieni am eu cymorth ac i bawb am eu cefnogaeth a'u cyfraniadau

Dosbarthwyd amlenni Cymorth Cristnogol a'u casglu yn y cyntedd dros gyfnod o dri Sul. Diolch am ymateb a haelioni'r gynulleidfa.

Lluniau o weithgareddau'r Clwb Sul

Cân dy gymydog
(Wythnos Cymorth Cristnogol)

Brecwast o grempog gan yr ieuenctid- byddant yn teithio 70 milltir ym mis Mai i godi arian i Gymorth Cristnogol.

Hetiau a melinau gwynt y Pentecost

Dyfroedd Bywiol

Mae'r Beibl yn frith o gyfeiriadau at ddŵr a'i rinweddau iachusol a bendithiol, a'r Iesu ei hun yn dechrau ei weinidogaeth gyda'i fedyddio yn yr afon Iorddonen. A ninnau newydd brofi rhwystredigaethau'r gwanwyn gwlypaf ers cyn co', mae'n dda dal gafael ar ryfeddod a dirgelwch yr elfen hanfodol hon, sydd mor greiddiol i fywyd ar y blaned a'n bywydau ni fel unigolion.

Un arfer syml gallwn ei fabwysiadu yn ein bywyd bob dydd yw diolch am y dŵr wrth iddo lifo allan o'r tap, a'i fendithio wrth i ni godi gwydr i'n gwefusau. Yn hyn o beth byddwn yn adleisio gwerthfawrogiad ein cyndeidiau a'n mamau wrth godi dŵr o'r ffynnon, a'u dealltwriaeth gynhenid o gysylltiad dŵr gyda ffrwythlondeb a sancteiddrwydd y ddaear.

Mae diddordeb cynyddol ymhlith pobl o bob math mewn natur ysbrydol dŵr ac mae nifer o wyddonwyr yn gweithio yn y maes newydd hwn. Arloeswr yn eu plith oedd Dr Masaru Emoto, a ddatblygodd ffordd o gofnodi effaith geiriau penodol ar ddŵr trwy dynnu ffotograff o'r crisialau sy'n ymffurfio'n naturiol wrth iddo rewi. Darganfyddodd mai'r unig ffordd o greu crisialau prydferth oedd trwy gyflwyno geiriau fel 'cariad' a 'heddwch' i'r dŵr, ar lafar neu yn ysgrifenedig. Hefyd cofnododd effaith drawsnewidiol gweddi ar ddŵr llygredig. Mae ei waith yn gadarnhad gweledol o hen ddoethinebau ein ffydd.

Cariad a diolchgarwch

Gobaith

Iwan Jenkins

CRISTNOGAETH 21
ENCIL 2024
YSBRYD GALAR, YSBRYD GOBAITH
SADWRN 8 MEHEFIN
MORLAN
Aberystwyth
10:00/10:30 - 3:00
COFRESTRU ERBYN
31 MAI
TRWY EBOSTIO
cristnogaeth21@
gmail.com
PRIS
(CYNNWYS COFFI
dan arweiniad
GWENAN
CREUNANT,
MEDI JAMES,
RHIDIAN GRIFFITHS,
PRYDERI LLWYD
JONES
£25
A CHINIO BWFFE)

Nodiadau am y gerdd ‘Drws’

Llongyfarchiadau i Gareth Owen a enillodd Gadair Eisteddfod Llanuwchllyn yn ddiweddar.

Dyma rai sylwadau gan Gareth am y gerdd fuddugol:

Testun y gerdd yw **‘Drws’**, ac a’r ddechrau’r bryddest ceir dau ddyfyniad.

‘Nid oes gan atgofion plentyn drefn na diwedd’, (Dylan Thomas)

‘Gallwch gau eich llygaid i realaeth ond nid i atgofion’. (Stanislaw Jerzy Lec)

Y ddau ddyfyniad yma yw’r cysyniadau sy’n sail i’r gerdd. Y cyd-destun yw Ysbyty ac mae’r claf yn gybôl o atgofion plentyndod, breuddwydion amwys, a’i ddychymyg yn hedfan gyda realaeth yn treiddio i’r wyneb nawr ac yn y man.

Mae’r gerdd yn dechrau ac yn gorffen gyda dynwarediad o lais undonog lifft yr ysbyty yn dynodi cau ac agor y ‘**drws’** ac mae cyfeiriadaeth at wahanol fathau o ddrysau’n britho’r gerdd.

Llyfrau Llafar Cymru
Siarad Cyfrolau

Tybed a oes gennych ffrind neu aelod o'ch teulu â nam golwg ac yn ei chael hi'n anodd darllen erbyn hyn? Os oes, efallai y gall llyfrau llafar Cymru fod o gymorth.

Mae yna lyfrau o bob math ar gryno ddisg neu ffon gof, yn cynnwys nofelau, straeon byrion, cofiannau yn ogystal â phregethau a darlleniadau o'r Beibl.

Mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim i'r rhai sydd wedi'u cofrestru'n ddall neu'n rhannol ddall a'r sawl sy'n cael anhawster i ddarllen.

I gael rhagor o fanylion am y cynllun a chopi o'r catalog o 2600 o deitlau cysylltwch â staff y swyddfa ar:
Ffôn: 01267 238225
E-bost: **llyfraullafarcymru@gmail.com <about:blank>**

Anfonir 2500 o deitlau allan bob blwyddyn.

Gwefan: **llyfraullafarcymru.org.uk**
Cyfeiriad post: Llyfrau Llafar Cymru,
Tŷ Llafar.
Parc Dewi Sant,
Heol Ffynnon Job,
Caerfyrddin,
SA31 3HB.

Er Cof

CECILIA ZANTIPPE JONES (Celia)

Nid yn unig enw rhyfeddol ond fe fyddai'n wir dweud bod Celia yn berson rhyfeddol. Yn un o dair merch i'r diweddar Tommy ac Annie Evans, fe'i magwyd ar gyrion pentref hynafol Llangynwyd ger Maesteg. Roedd teulu a hanes teuluol yn bwysig iddi ac felly gwreiddiau, a bu'n olrhain ac yn cofnodi'r hanes hwnnw trwy gydol ei bywyd. Mynychodd yr ysgol gynradd leol ac yna Ysgol Ramadeg Y Llwyni, Maesteg, cyn derbyn ei hyfforddiant fel athrawes yng Ngholeg Y Bari. Dechreuodd ei gyrfa dysgu yng Nghaint cyn symud i Ynys Gurnsey ac yna i ysgol breswyl i blant byddar yn Llandrindod. Dysgodd laith Arwyddion Prydain a byddai'n defnyddio'r BSL i gyfathrebu dros y blynyddoedd gyda rhai oedd yn drwm eu clyw a hefyd i gadw ambell sgwrs yn gyfrinachol ar yr aelwyd! Cyfarfu Alun ac yn dilyn cyfnod o garwriaeth, fe'i priodwyd ar yr ail o Ionawr, 1965. Ymhen amser ganwyd Ann, Lewis a Hywel a bu'r aelwyd yn un prysur a dylanwadol. Roedd teulu yn bwysig iddi a chyfrwng bendith oedd dyfodiad Julie a Patsy ac ymhen amser, Morgan, Eluned a Gwynfor. Er y prysurdeb teuluol hwnnw bu cyfraniad Celia i fywyd diwylliannol a chymunedol yn un llawn. CYD, Merched y Wawr, Cymdeithas Y Deillion, yr Ysgol Feithrin, Yr Angor a nifer o sefydliadau amlwg Aberystwyth a thu hwnt, y cyfan yn profi o'i chefnogaeth a'i doniau. Ond mi roedd yna bethau eraill hefyd a dim yn fwy na'i ffydd dawel. Bu'n aelod ac athrawes Ysgol Sul yn Seilo a'r un fu ei ffyddlondeb i Gapel Y Morfa ar hyd y blynyddoedd gyda'i sylwadau tawel yn adlewyrchu ei

gwrandawiad a'i doethineb. Ni fu'r blynyddoedd olaf yma'n rhai hawdd i Celia ond profodd o gymdeithas a gofal arbennig Cartref Tregerddan a hithau yn manteisio ar bob cyfle i annog y trigolion a'r staff i siarad Cymraeg!

Wedi cyfnod yn Ysbyty Bronglais, bu farw'n dawel yng Nghartref Y Cwm.

Cydymdeimlwn ag Ann, Lewis. Hywel, Julie, Patsy, Morgan, Eluned, Gwynfor a'r teulu cyfan yn eu profedigaeth.

Bu'r gwasanaeth yng Nghapel Y Morfa ac yna'n dilyn yn Amlosgfa, Aberystwyth ar y 29ain o Ebrill gyda'r Parchedigion Eifion Roberts, Pryderi Llwyd Jones ac Evan Morgan yn gwasanaethu gyda chymorth David Greaney a Colin Fetcher. Cafwyd eitem gerddorol gan Morgan ac Eluned a theyrnged gan Ann.

Anne Edwards

Brodor o Geredigion oedd Anne ond fel llawer un arall, gan fod teulu ganddi yn Llundain, yn ifanc iawn, trodd ei golygon tuag at y ddinas honno. Pobl y llaeth a phobl y siopau cornel a daeth Anne yn rhan o'r bywyd hwnnw, gan ddechrau gweithio i aelodau teuluol. Fe fyddai'n wir dweud bod patrwm arbennig i fywyd Cymru Llundain a buan iawn y daeth y patrwm hwnnw yn rhan o'i bywyd.

Hoffai fynd i Ganolfan Cymru Llundain yng Nghrays Inn a mynychai un o'r llu o gapeli Cymraeg oedd yn y ddinas. Ymhen amser daeth yn wraig ac yn fam ac ymhyfrydai yn amrywiol lwyddiannau ei mab Bryan.

Oherwydd natur ei gwaith dramor, daliodd ar y cyfle i deithio a'r profiadau newydd hynny'n brofiadau arhosodd gyda hi trwy gydol ei bywyd. Er i Bryan osod ei wreiddiau ar ôl teithio yn ardal

Tregaron, parhaodd Anne i fyw yn Llundain a mwynhau cwmni ffrindiau oedd yn golygu gymaint iddi. Ond yn y flwyddyn 2010, penderfynodd ddychwelyd i Geredigion a dyna pryd y daeth yn aelod yng Nghapel Y Morfa. Ymgartrefodd yn Llys Y Brenin gan fwynhau golygfa arbennig o'i fflat cysurus a thaclus. Bu'n ffyddlon i oedfa'r bore a byddai wrth ei bodd yn sgwrsio ac yn mwynhau siopa ac ambell i baned o goffi a phryd o fwyd. Trist meddwl bod ei ffrind annwyl, Mrs Beryl Jones bellach wedi ein gadael, a byddai'r ddwy yn teithio i fannau fel Caerfyrddin i edrych ar y ffasiynau diweddaraf ac i fwynhau pryd o fwyd cyn dychwelyd. Bu Bryan ynghyd ag Anne, Natalie a Steffan yn garedig iddi ar hyd y blynyddoedd ac roedd yn meddwl y byd o'i gôr wyrion ac wyresau, Thea, Jaxon, Oli a Lleu. Yn dilyn cyfnod yn yr ysbyty, symudodd i Allt y Mynydd, Llanybydder ble y profodd ofal arbennig gan staff ymroddedig y cartref hwnnw.

Cydymdeimlwn â Bryan, Anne, Natalie, Steffan, Thea, Jaxon, Oli, Lleu a'r teulu cyfan yn eu profedigaeth.

Bu'r gwasanaeth yn Amlosgfa Aberystwyth ar 10 Ebrill gyda'r Parch Eifion Roberts yn gwasanaethu.

Sasiwn y Chwiorydd yn y De

Cynhaliwyd Sasiwn y Chwiorydd y De ym Mhontyberem ddydd Iau, 16 Mai. Y ddwy siaradwraig oedd Miriam Watling, sy'n byw ac yn gweithio yn Llundain a Siân Wyn Rees, Pennaeth Cymdeithas y Beibl yng Nghymru. Bydd adroddiad llawn am y ddau gyfarfod yn y rhifyn nesaf.

Blaenor y mis: Menai Lloyd Williams

Dyddiadur Mehefin 2024

Gwasanaethau'r Sul: 10 y bore yng Nghapel y Morfa ac ar Zoom. 2:15 y prynhawn yn Ebeneser ar y Sul cyntaf a'r trydydd Sul o'r mis.

2 Mehefin - Y Parchg Eifion Roberts
9 Mehefin - Y Parchg John Roberts
16 Mehefin - Y Parchg Eifion Roberts
23 Mehefin - Tudur Dylan Jones
30 Mehefin - Y Parchg Eifion Roberts

Rhestr flodau Capel y Morfa

2 Mehefin - Glenys James
9 Mehefin - Bethan Bryn
16 Mehefin - Ifor a Valmai Davies
23 Mehefin - Sara Williams
30 Mehefin - Gwerfyl Pierce Jones (Cyfraniad at elusen)

Ysgol Sul: Plant ac ieuenctid: yn y festri.

Cylch gweddi a choffi: Bore Mawrth am 11 y.b. ar Zoom.

Ffydd a phaned: Prynhawn Gwener am 2 y.p. ar Zoom.

Golygydd y rhifyn hwn yw Hywel Lloyd. Diolch i Catherine, Deian, Gareth Owen, Iwan Jenkins ac Arwel am anfon y lluniau ar gyfer y rhifyn hwn. Cyfraniadau ar gyfer rhifyn mis Gorffennaf o Perthyn i Sarah neu John (sarahminyfron@hotmail.com) erbyn dydd Sul 23 Mehefin, os gwelwch yn dda.